y GOLEUAD

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

yn calonogi

yn ysbrydoli

yn adeiladu

CYFROL CXLV RHIF 26 | DYDD GWENER, MEHEFIN 30, 2017 | Pris 50c

Croeso i'r Gymanfa Gyffredinol

3-5 o Orffennaf 2017

Fy mraint eto eleni yw estyn gwahoddiad cynnes i gynrychiolwyr, gweinidogion a blaenoriaid y Cyfundeb i'n Cymanfa Gyffredinol sydd i'w chynnal ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac yn Eglwys y Crwys. Ac os nad ydych yn gynrychiolwr swyddogol cofiwch fod croeso cynnes i chi i gyd i holl gyfarfodydd cyhoeddus y Gymanfa eleni!

Ar drothwy'r Gymanfa ar nos Sul 2il o Orffennaf bydd oedfa arbennig sy'n cynnwys detholiad o "Y Pererin" gan Norah Isaac yn cael ei chynnal yng Nghapel y Crwys. Bydd yn rhan anrhydeddus o'n dathliadau i gofio Tri Chan Mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn.

Bydd y Gymanfa ei hun yn agor gydag Oedfa Groeso, Coffâd a Chymun yn Eglwys y Crwys ar nos Lun y 3ydd. Ac yno hefyd y cynhelir oedfa nos Fawrth 4ydd o Orffennaf pan fydd y Llywydd presennol, sef yr Athro John Gwynfor Jones yn traddodi ei Araith Ymadawol. Byddwn hefyd yn croesawu'r Llywydd newydd, sef, y Parch Brian Huw Jones, Prestatyn.

Braint hefyd fydd eich croesawu i fwynhau dwy ddarlith gyhoeddus fydd yn cael eu traddodi ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yng Nghyncoed.

Bydd y Ddarlith Davies yn cael ei thraddodi gan y Parch Dafydd Andrew Jones ar y thema "Ynysoedd Gobaith" a'r ddarlith Hanes yn cael ei thraddodi dydd Mercher. Yn naturiol ddigon a hithau'n flwyddyn dathlu cyfraniad y pêr ganiedydd, "Williams piau'r canu" fydd testun darlith Dr W Gwyn Lewis.

Parch Meirion Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol

Rhaid i mi gydnabod bod y flwyddyn a aeth heibio wedi bod yn oriog o ran fy nghyfraniad personol, ond mae'r papurau sydd wedi eu paratoi ar gyfer y cyfarfodydd yn arwyddo gweithgarwch helaeth a thrafodaethau ar amryw o faterion pwysig. Bydd Bwrdd y Gymanfa yn dwyn argymhellion ar ffordd newydd o gasglu cyfraniadau tuag at waith yr Eglwys a byddwn yn cynnig gweithredu'r *Cyfraniad Gweinidogaeth a Chenhadaeth* o Ionawr 2018 ymlaen. Bydd y Gymanfa hefyd yn derbyn adroddiad gan y grŵp a wahoddwyd i ystyried sut oedd modd sicrhau olynydd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Yn ychwanegol bydd y Bwrdd yn dod ag argymhelliad o'r Adran Adnoddau ar ffurf o sicrhau gwell defnydd o adnau cyfrif cadw'r Bwrdd Eiddo gan obeithio y bydd hyn yn sicrhau gwell graddfa llog ar gyfer yr adneuwyr.

Cawn glywed gan yr Adran Gweinidogaethau am eu bwriadau i ymateb yn briodol i'r lleihad sylweddol sydd yn nifer ein gweinidogion ynghyd â derbyn adroddiad ar yr amrywiaeth o weithgarwch a gyflawnir gan y rhai sy'n arwain mewn gweinidogaethau amgen o fewn y Cyfundeb. Bydd yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant yn adrodd ar sylweddoli ei dyhead i sicrhau arweinyddiaeth academaidd o fewn yr Adran tra bydd yr Adran Ecwmenaidd a Byd Eang yn ein diweddaru ar y gweithgarwch rhyng-eglwysig yng Nghymru a thrwy CWM. Cawn ddiweddariad gan yr Adran Cyhoeddi ar y bedwaredd gyfrol o Hanes y Cyfundeb tra bydd Adran y Bwrdd Pensiynau yn dwyn newyddion da am gyflwr y buddsoddiadau a wnaed ar ein rhan.

Yn naturiol byddwn hefyd yn cael clywed am drafodaethau diweddara'r Adran Eglwys a Chymdeithas wrth iddynt geisio rhoi mynegiant i'n hymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r eglwys a Christnogion mewn byd sy'n newid mor gyflym.

Wrth baratoi felly i'ch croesawi gofynnaf i chi weddïo y byddwn yn diogelu bod ein gweithgarwch yn anrhydeddu'r Arglwydd a gofynnaf i chwi weddïo yn benodol dros yr Athro John Gwynfor Jones a'r Parchedig Brian Huw Jones wrth iddynt lywio'r gweithgarwch.

Meirion Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol

CYFARFODYDD CYHOEDDUS Y GYMANFA GYFFREDINOL

Nos Sul, 2 Gorffennaf
6:00 pm – **CYMDEITHAS DDRAMA Y CRWYS YN DARLLEN DETHOLIAD O 'Y PERERIN' (Norah Isaac)**
Yn Eglwys y Crwys, Caerdydd

Nos Lun, 3 Gorffennaf
7.30 pm – **GWASANAETH GROESO, CYMUN A CHOFFÂD**
I Bregethu: Parchg. Aled Huw Thomas, BA, BD, Caerdydd
Yn Eglwys y Crwys, Caerdydd

Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf
11.45am – **Y DDARLITH DAVIES**
Darlithydd: Parchg. Dafydd Andrew Jones, MA, Caerdydd
Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, Campws Cyncoed
Testun: 'Ynysoedd Gobaith'

8.00 pm – **ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD**
Yr Athro J. Gwynfor Jones, MA, PhD, DLitt, Caerdydd

TROSGLWYDDO'R LLYWYDDIAETH
Y Parchg. Brian Huw Jones, BAdd, BTh, Prestatyn

Yn Eglwys y Crwys, Caerdydd

Dydd Mercher, 5 Gorffennaf
11.45 am – **DARLITH Y GYMDEITHAS HANES**
Darlithydd: Dr W. Gwyn Lewis, BA
Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, Campws Cyncoed
Testun: 'Williams Piau y Canu ...':
Golwg ar Fywyd a Gwaith William Williams, Pantycelyn

YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN Y GYMRAEG

Gweithgarwch chwiorydd y de... t. 2 • **Penodiad Newydd**... t. 2 • **Cwrs i Flaenoriaid**... t. 7 • **O'r Capeli**... t. 8